Disgrifiad Swydd

CYFEIRNOD Y SWYDD

Teitl y Swydd	Swyddog Darpariaeth Ieithyddol y Blynyddoedd Cynnar				
Gradd	6	**Cyfeirnod Gwerthuso Swydd:**	1375D	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	30/03/2023

Gwasanaeth	Atal a Chynhwysiant				
Tîm Gwasanaeth	Y Blynyddoedd Cynnar				
Yn atebol i'r	Dirprwy Reolwr Tîm				
Meysydd Cyfrifoldeb	Cliciwch yma i ychwanegu testun *(enwau'r timau).*				
Nifer y staff y mae'n gyfrifol amdanynt	Dim	**Rôl Wleidyddol Gyfyngedig** *(gweler yr adran amodau arbennig)*	Nac oes	**Angen Gwiriad GDG**	Oes
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w chwblhau gan reolwr dim ond wrth greu swydd newydd neu addasu rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Gwella canlyniadau i blant a theuluoedd trwy ddarparu cymorth ac ymyrraeth o fewn lleoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg, lleoliadau grŵp ac yn y cartref gan ddarparu egwyddorion Iaith Gynnar a Portage.

PRIF FEYSYDD CANLYNIAD

1. Trefnu, cynllunio a chyflwyno cyrsiau mewn lleoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg a grwpiau cymunedol pan fo angen, gan ddefnyddio egwyddorion o ganllawiau Iaith Gynnar Llywodraeth Cymru.

2. Cynnal cofnodion cywir a chyfredol o gyrsiau a gyflwynir i fonitro a gwerthuso prosiectau Iaith Gynnar yng Nghasnewydd, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cydymffurfio â gofynion diogelu data. Mae hyn yn cynnwys mesur pellter a deithiwyd / canlyniadau cwrs trwy strategaethau gwerthuso ac asesu cyfranogwyr (rhiant/plentyn) ac addasu sesiynau cwrs neu gynlluniau gwaith fel y bo'n briodol.

3. Datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda theuluoedd a chefnogi ymgysylltu â theuluoedd ar y llwybr Dechrau'n Deg a nodwyd yn cynnwys y rhai anoddaf eu cyrraedd. Annog teuluoedd i gael cymorth ychwanegol trwy gyfeirio at asiantaethau eraill a sicrhau bod gan rieni wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

4. Gweithredu strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol, e.e. llythrennedd, rhifedd, y blynyddoedd cynnar a defnyddio cyfleoedd a geir gan weithgareddau dysgu eraill yn effeithiol i gefnogi datblygiad sgiliau plant.

5. Cynorthwyo staff gofal plant i ddarparu pecynnau gwell o gymorth Iaith i blant y nodwyd eu bod ag oedi datblygiadol, gan gefnogi gweithredu Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg 2018 a llwybr Lleferydd ac Iaith.

6. Gweithio'n agos gyda Thîm Cymorth y Blynyddoedd Cynnar (Gofal Plant, Tîm Iaith Gynnar a Gweithwyr Teulu) i ddarparu cymorth targedig i blant ag angen a nodwyd.

7. Cynnal ymweliadau cartref at ddiben asesu iaith yn ogystal â darparu pecynnau cymorth iaith yn y cartref gan ddefnyddio'r Egwyddorion Portage.

8. Sicrhau eich lechyd a'ch Diogelwch eich hun a'r cyfranogwyr mewn lleoliadau cymunedol gan ddilyn polisi CDC, gan adrodd unrhyw bryderon i'r rheolwr.

9. Gweithredu yn unol â pholisïau a chanllawiau Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnwys y polisi gweithio ar eich pen eich hun, gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan a pholisi diogelu CDC bob amser. Bod yn gyfrifol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hunan ac eraill.

10. Mentro fel y bo'n briodol i ddatblygu dulliau amlasiantaeth priodol o gynorthwyo teuluoedd yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal CDC.

11. Goruchwylio, mentora ac uwchsgilio swyddogion cymorth yn cynnwys myfyrwyr a gweithwyr sesiynol, i ddarparu ymyriadau o ansawdd uchel mewn lleoliadau cylchoedd chwarae a grwpiau cymunedol.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniad y swydd ar y dyddiad y cafodd ei lunio. Gall y fath ddyletswyddau amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae'r fath amrywiadau'n digwydd yn gyffredin ac ni allant ynddynt eu hunain gyfiawnhau ailystyried graddio'r swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• Lefel 3 mewn gofal plant neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth berthnasol e.e. NNEB, CACHE. • Yn barod i weithio tuag at Lefel 5 mewn Gofal Plant. • Sgiliau rhifedd/llythrennedd rhagorol – cyfwerth â Lefel 2 Saesneg a Mathemateg.	• Cymhwyster Lefel 5 Gofal Plant.
Gwybodaeth	• Good knowledge and understanding of principles of child development and learning processes. • Knowledge on how to support children with additional needs. • Knowledge of adult basic skill awareness Sound knowledge of the Flying Start programme. • Knowledge of Forest Schools. • Understand and demonstrate a willingness to promote positively the Equal Opportunities Policy of Newport City Council. • Gwybodaeth ymarferol lawn am bolisïau/codau ymarfer perthnasol ac ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol.	• Gwybodaeth am Raglen Dechrau'n Deg. • Gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddysgu Awyr Agored.
Profiad	• Profiad sylweddol o weithio gyda phlant o dan 5 mewn amgylchedd dysgu. • Profiad o weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. • Profiad o gydweithio â'r holl bartneriaid allweddol a gweithwyr proffesiynol i gynorthwyo addysg plant.	• Profiad o weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol.
Gallu a Sgiliau	• Y gallu i ddefnyddio offer/adnoddau a thechnoleg berthnasol i gynorthwyo dysgu. • Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol a'r gallu i gysylltu'n dda â phlant ac oedolion. • Gweithio'n adeiladol ac yn hyblyg fel rhan o dîm. • Y gallu i nodi eu hanghenion hyfforddi a datblygu eu hunain a mynd ati i chwilio am gyfleoedd dysgu. • Gallu trefnu, arwain ac ysgogi timau eraill. • Y gallu i ddelio'n ddigyffro â gwahanol sefyllfaoedd wrth iddynt godi.	

	• y gallu i ddatblygu perthynas dda gyda phlant, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. • Deall ac yn parchu egwyddorion cyfrinachedd.	

YMDDYGIADAU A GWERTHOEDD DISGWYLIEDIG

Trefnu, dyrannu a gwirio gwaith. Dangos ymddiriedaeth mewn pobl eraill gan wybod pryd i gefnogi a phryd i gamu'n ôl.

Rhannu arfer gorau a chyfrannu at ddatblygu arferion. Cynnal agwedd realistig a chadarnhaol at newid.

Cyfathrebu mewn modd syml ac uniongyrchol. Ymdrin yn hyderus â sgyrsiau heriol. Annog a bod yn agored i adborth datblygiadol gan bobl eraill.

Defnyddio eich menter eich hun i wneud penderfyniadau priodol. Rhoi adborth lle y gellir gwella'r rhain.

Myfyrio'n onest ar eich ymagwedd bersonol a'i heffaith ar bobl eraill a datblygu eich sgiliau er mwyn gallu addasu eich ymagwedd fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal

Cyfle Cyfartal	Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Dinas Casnewydd yn gadarnhaol.

Gofynion y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn cynorthwyo staff i ddarparu hyn. Rhaid i bob swydd gael ei hasesu o ran gofynion y Gymraeg a bydd y Gymraeg naill ai'n Hanfodol neu bydd y Gymraeg yn Ddymunol.

Gofynion y Gymraeg ar gyfer y swydd hon (gweler yr Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg am lefelau sgiliau)

Sgiliau Iaith Gymraeg		Dymunol			
Sgiliau Gwrando / Siarad	3	Sgiliau Ysgrifennu	3	Sgiliau Darllen / Deall	3

Amodau Arbennig

Datgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Yn rhan o'r swydd hon byddwch yn cael cryn dipyn o gyswllt â phlant, yr henoed, pobl sâl neu bobl anabl. Gan hynny, mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol, yn unol â Gorchymyn 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau), Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, eich bod chi'n datgelu unrhyw gollfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo neu rybuddion, gan gynnwys y rheiny a fyddai fel arfer wedi'u hystyried fel rhai sydd wedi'u disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais – caiff eich cais ei ddychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os ydych yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn destun Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylech dderbyn rhagor o wybodaeth am Ddatgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ymagwedd y Cyngor at recriwtio cyn-droseddwyr ar ôl derbyn y ffurflen gais. Os na dderbyniwch chi'r rhain, cysylltwch â'r person a enwir yn yr hysbyseb.
Rôl Wleidyddol Gyfyngedig	Ddim yn berthnasol.
Arall (gan gynnwys gofynion corfforol ac amodau gwaith)	Lle bo'n briodol, mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd y tu allan i oriau ysgol arferol.

Hyfforddiant
Cyflawni'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich hun.

I gael gwybod rhagor am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.newport.gov.uk/cy neu cliciwch yma